

Ein Bro

Newyddion
Ysgol Bro Hyddgen
News



2

Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

Ar deryn tymor prysur iawn arall hoffwn yn gyntaf ddiolch i'r rhieni a'r plant am gefnogi'r ysgol mor dda. Hefyd hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff am eu gwaith caled.

Cafwyd sawl digwyddiad arbennig iawn yn ystod y tymor diwethaf. Rhai o'r uchafbwyntiau i mi oedd llwyddiant yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd gyda'r plant yn ennill dros 20 gwobr gyntaf; y Pasiant gwefreiddiol 'Efengyl Tangnefedd' a'r cynhyrchiad campus o 'lasoer'.

Fel y gwelwch wrth ddarllen trwy'r cylchgrawn hwn, mae'n disgyblion ni yma ym Mro Hyddgen yn cael profiadau a chyfleon arbennig iawn, yn amrywio o gyweithiau COBWEB a chyfle i ymweld â Gwlad Groeg, perfformio, gweithdai Celf a chyflwyniad am y Fari Lwyd, i enwi ond rhai. Does dim wythnos yn mynd heibio ble nad oes rhywbeth allgyrsiol wedi ei drefnu ar gyfer y plant.

Rhaid cofio hefyd am yr arholiadau. Os yw eich plentyn ym mwlyddyn 10 i 13 fe ddylai fod wedi llunio amserlen adolygu a bellach wedi dechrau adolygu. Mae'r arholiad cyntaf ar Fai 16eg, sydd ond wyth wythnos i ffwrdd. Fel rhieni, mae gennych rôl bwysig i'w helpu drwy eu hannog i weithio a thrwy geisio sicrhau lleoliad tawel iddynt wneud y gwaith (heb deledu a phethau eraill all dynnu eu sylw). Dylid adolygu mewn cyfres, sy'n golygu adolygu'r un gwaith am dair neu bedair noson yn olynol. Mae ystadegau'n dangos bod pobl yn cofio tua 80% o'r gwaith ymhen pedair wythnos, ar ôl adolygu am gyfres o nosweithiau. Ond os yw eich plentyn yn adolygu testun unwaith yn unig mae peryg iddo/iddi fod wedi anghofio 90% o'r gwaith ymhen pedair wythnos. Tystiolaeth felly bod gwaith caled yn síwr o dalu ar ei ganfed.

Hoffwn ddymuno'n dda i bawb dros y gwyliau gan obeithio y cewch Basg hapus ac edrychwn ymlaen at eich croesawu n'ôl atom ym mis Ebrill.

Cofion Cynnes

Dafydd M B Jones

Pennaeth

At the end of another action packed term, I would firstly like to thank the parents for their continued support and I would like to genuinely thank the staff for all their hard work.

A number of very interesting activities have been held during this term. One of my personal highlights was the school's success in the Urdd Eisteddfod with the children winning first prizes in over 20 competitions; another highlight was the outstanding Efengyl Tangnefedd pageant; lastly, the impeccable production of Frozen will stay with me for a long time.

As you can see from reading this edition of Ein Bro, the children are receiving wonderful experiences and wide ranging opportunities such as a visit to Greece as part of the COBWEB project; art workshops and a presentation about the Fari Lwyd, to name just a few. Not a week passes without an interesting event being organised for the children.

However, we should not forget the importance of exams. If your child is in year 10-13 he/she should have put together a revision timetable and started revising. The first examination starts on the 16th of May, which is in eight weeks. As parents you have a very important role; you can help your children to revise by encouraging them and making sure they have a quiet area to work (without a television and other distractions). Revision works well when it's done as part of a series, where the child revises the same topic for a series of three or four consecutive nights. Statistics show that people will remember around 80% of the work in four weeks time after revising for a series of nights. But if a child revises for just one night, 90% will be forgotten in four weeks time. Proof enough that hard work will pay off.

I would like to wish you all well over the holidays and hope that you have a very happy Easter. I look forward to welcoming you all back in April.

Best Wishes

Dafydd M B Jones

Headteacher



Dyddiadau Pwysig / Important Dates

Cynradd / Primary

3

4/4/2016	Diwrnod Di-ddisgybl / non-pupil day
13/4/2016 - 14/4/2016	Beirniadu Celf a Chrefft y Sir / Judging arts and crafts in the County
26/4/2016	Dentist - sgrinio babanod / Dentist Screening Foundation phase.
2/6/2016	Gŵyl y Banc / Bank Holiday
30/5/2016 - 4/6/2016	Hanner Tymor / Half Term
30/5/2016 - 4/6/2016	Eisteddfod yr Urdd - Fflint

Uwchradd / Secondary

27/4/16 - 10/5/16	Profion Cenedlaethol Rhif a Darllen Bl 7, 8 a 9 Yr 7, 8 & 9 National Reading and Numeracy Tests
13/5/16 - 28/6/16	Arholiadau Allanol / External Examinations
30/5/16 - 3/6/16	Hanner Tymor / Half Term

Croeso / Welcome

Ar ddechrau tymor newydd, braf yw croesawu 5 o ddisgyblion newydd i'r dosbarthiadau meithrin: Emily Heard i ddosbarth 0/1/2, Mrs Sian Calban a Brython Childs, Evie Jones, Zara Fletcher a Jayden Witts-Jones i ddosbarth 0G, Miss Nia Lois.

At the start of a new term we would like to welcome 5 new pupils to the nursery: Emily Heard to class 0/1/2 with Mrs Sian Calban and Brython Childs, Evie Jones, Zara Fletcher and Jayden Witts-Jones to class 0G with Miss Nia Lois.



4 Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd



Llongyfarchidau mawr i Freya Thapa a Grace Buschini ar eu llwyddiant yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn, Ionawr 23ain.

Aeth Freya trwodd i'r rownd cyn-derfynol yn y medli unigol cymysg a Grace trwodd i'r rownd derfynol yn y pili pala. Da iawn chi ferched!

A big congratulations to Freya Thapa and Grace Buschini on their success in the Urdd National Swimming Gala in Cardiff on January 23rd.

Freya went through to the semi-finals and Grace went to the finals. Good job girls!

Cymorth Cyntaf / First Aid

Cafodd ddisgyblion dosbarthiadau 5/6H a 5/6J hyfforddiant sgiliau Cymorth Cyntaf yn ddiweddar. PCSO Tessa Williams ar ran Heddlu Dyfed Powys fu'n gyfrifol am yr hyfforddiant. Cafodd pob un o'r disgyblion dystysgrif ar ddiwedd yr hyfforddiant.

Pupils from classes 5/6H and 5/6J recently had first aid training from PCSO Tessa Williams from Dyfed Powys Police. All the pupils had a certificate at the end of the training session.



AMSERLEN ADDYSG GORFFOROL 5X60

5X60 PHYSICAL EDUCATION TIMETABLE

DAY	BREAK GYM	LUNCH LEISURE	LUNCH GYM	AFTER LEISURE
LLUN MONDAY	PELFASGED BL.9+10	5x60 DODGE BALL 1.00 9,10,11 Boys 1.10 9,10,11 Girls 1.20 7,8 boys 1.30 7,8 Girls	DAWNS BL.9	5x60 INDOOR HOCKEY mixed
MAWRTH TUESDAY	DAWNS BL.7	5x60 BADMINTON Mixed Please book a court	PELFASGED BL.10	NETBALL
MERCHER WEDNESDAY	DAWNS RHIANNON		DAWNS BL.7 + TABLE TENNIS Please book a court	FOOTBALL Girls BL.7,8,9,10,11
IAU THURSDAY	DAWNS BL.9	Gym Session Over 14s only Limited spaces	DAWNS RHIANNON	NETBALL
GWENER FRIDAY	PELFASGED BL.9+10	5x60 FOOTBALL 1.00 Year 10,11 boys 1.10 Year 9 boys 1.20 Year 7,8 boys 1.30 mixed Girls	PELFASGED BL.9	5x60 BADMINTON Mixed Please book a court





'The Chase'



Dydd Mercher Ionawr y 27ain, rhoddais i, ynghyd â Mathias, Bethan, Bronwen ac Osian ein fersiwn ni o'r cwis 'The Chase' ymlaen amser cinio yn neuadd yr ysgol. Er gwaetha gwneud newidiadau funud olaf i strwythr y cystadlu, daeth criw da o ddisgyblion ac athrawon i wyllo Miss Good, Ms Currie a Mr Biffin yn brwydro yn erbyn Mr Ellis a Mr Ros, y 'Chasers'. Dw i'n siwr byddai'r rhan helaeth o'r gynulleidfa yn cytuno mai'r uchafbwynt oedd gweld Mr Ros yn cael plât o hufen yn ei wyneb, fel cosb ar ôl colli! Diolch i bawb a gymerodd ran, a ddaeth i wyllo ac i Lliwedd am gyd-gyflwyno.

On Wednesday the 27th of January, our enterprise group: Mathias, Bethan, Bronwen, Osian and I put our version of the game show 'The Chase' on in the hall during lunchtime. Despite making last minute changes to the structure of the competing, a good crowd came to watch Miss Good, Mrs Currie and Mr Biffin compete against Mr Ellis and Mr Ros, the 'Chasers'. I'm sure most people would agree that the highlight was seeing Mr Ros being pied as a forfeit for losing! Thank you to everyone who took part, came to watch and to Lliwedd for the help on stage.

Diwedd Tymor / End of Term

Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiant nifer o ddisgyblion mewn gwasanaeth arbennig ar ddiwedd y tymor. Gwobrwywyd y plant a dderbyniodd y pwyntiau uchaf ym mhob tîm gan gapteiniaid yr ysgol. Ar ddiwedd tymor hir a phrysur, braf oedd medru llongyfarch 52 o ddisgyblion am gynnal presenoldeb llawn yn ystod Tymor yr Hydref.

Dymunwyd yn dda i Miss Siân Lewis ar ei hantur arbennig, a diolchwyd iddi am ei hymroddiad fel cynorthwy-ydd yn yr ysgol. Bydd Siân yn treulio cyfnod yn Bali, cyn symud ymlaen i Awstralia. Pob dymuniad da iddi ar ei thaith.

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Sian Speake yn ei rôl newydd fel cynorthwy-ydd dysgu yn nosbarth 2W, Mrs Angharad Williams.

We had plenty of opportunity to celebrate in our end of term assembly. Pupils with the highest number of points from each team were awarded by their captains. At the end of a very long term, it was nice to award 52 pupils for, full attendance during October.

We would like to wish Miss Sian Lewis all the best of luck during her adventure and would like to thank her for her support as a classroom assistant in the school. Sian will be travelling, while spending time in Bali, before traveling to Australia. Best of luck to her on her adventure!

We would also like to wish the best of luck to Mrs Sian Speake in her new role as a classroom assistant in Class 2W, Mrs Angharad Williams.



Efengyl Tangnefedd

7

Nos Wener gynta'r tymor, cynhaliwyd Pasiant arbennig iawn. Roedd y neuadd yn orlawn i glywed cyflwyniad 75 o ddisgyblion yr ysgol o *Efengyl Tangnefedd*. Tra'n dal yng nghyfnod y Canu Plygain, cawsom ein tywys gan y disgyblion ar daith drwy fywyd yr Iesu drwy air a chân, gan ganfod efengyl o gariad ac o heddwch; neges bwysig yn ein byd cythryblus heddiw. Cafwyd perfformiad gwefreiddiol gan Aron Wyn Parry wrth bortreadu'r Iesu, ac roedd perfformiadau Naomi Jones, Dafydd Duggan, Rhian Griffiths, Malen Aeron, Ifan Jones, Dyfan Parry Jones, Rhun Bleddyn, Tegan Roberts a Glain Lewis fel y prif gymeriadau yn gwbl gaboledig. Roedd cyfraniadau'r bechgyn hŷn fel y Disgyblion, y bechgyn Iau fel y Phariseaid, a'r côr yn ardderchog. Roedd y gynulleidfa yn gadael y Neuadd yn llawn edmygedd gyda neges Efengyl Tangnefedd yn atseinio ar hyd y coridorau. Diolch i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y Pasiant – heb anghofio am Kristian, Stefan a Sol am eu help technegol gyda chyn ddisgybl i'r ysgol sef Rhydian Pughe. Diolch arbennig i Nic Ros, Llifon Ellis, Caryl Morgans ac yn amlwg, ni fyddai'r pasiant wedo bod yn bosibl heb ymroddiad, brwdfrydedd a thalentau Mrs Llio James. Mae dyled yr ysgol iddi yn enfawr

A huge thank you to all who contributed to the success of the Pageant, Efengyl Tangnefedd. Whilst still in the period of Canu Plygain, Bro Hyddgen pupils took the audience on a journey through word and song, to discover, in the life of Jesus, a message of love and peace – an important message in today's troubled world. This was the second substantial concert by Bro Hyddgen secondary school pupils this academic year.




**Efengyl Tangnefedd, dos rhagot yn awr,
A doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr,
Fel na byddo mwych na dial na phoen
Na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.**



8

Clwb Rhaglennu Ysgol Bro Hyddgen yn ystod y Pasg



Manylion y digwyddiad:

Dydd Mawrth 22/3/2016
9:30 - 1:00

Campws Uwchradd
Ysgol Bro Hyddgen
Machynlleth
Powys
SY20 8DR

01654704200

www.brohyddgen.powys.sch.uk

Gallwch gofrestru eich diddordeb yn y weithgaredd yma drwy lenwi'r ffurflen:-
<http://goo.gl/forms/czQtxfSH0f>

neu fynd i www.brohyddgen.powys.sch.uk a dewis y linc *playful coding*



Hoffai Ysgol Bro Hyddgen a Phrifysgol Aberystwyth wahodd eich plentyn i ddiwmod rhaglennu cyfrifiadurol ar Gampws Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen. Bydd arbenigwyr rhaglennu o 5 gwlad gwahanol yn cynnal gweithgareddau rhaglennu dros Wyliau'r Pasg yn Ysgol Bro Hyddgen. Bydd amryw o weithgareddau i blant o oedran 7-15 gyda sesiynau dweud stori, robotau ac animeiddio.

Bydd y gweithgareddau yma yn rhad ac am ddim ac yn rhoi cyfwyniad i blant ddysgu sut i raglennu mewn dull hwylus a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi cael eu creu a'u cynnal gan arbenigwyr ar draws Ewrop. I offen y dydd cynhelir arddangosfa rhwng 12-1yh fydd yn rhoi cyfle i'r plant ddangos eu creadigaeth i'w gilydd ac i'w rheini.

Gallwch gofrestru eich diddordeb yn y gweithgaredd yma trwy lenwi'r ffurflen:-
<http://goo.gl/forms/czQtxfSH0f>

neu fynd i www.brohyddgen.powys.sch.uk a dewis y linc "playful coding". Gallwch hefyd gysylltu gyda Champws Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen i gadw lle ar gyfer eich plentyn gan adael y wybodaeth ganlynod: Ebostr Cyswllt, Enw'r Plentyn, Oed y plentyn Diolch am eich diddordeb. Rydym yn edrych ymlaen i gynnal y gweithgaredd. Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni efo'r manylion uchod.

Trefnir gan:

- Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth, UK
- Aberystwyth University, Aberystwyth, UK

Cyfraniad o sefydliadau eraill:

- Universitat de Girona, Girona, Spain
- Escola Veinat-Salt, Girona, Spain
- Constantin Ianculescu High-School, Craiova, Romania
- University of Craiova, Craiova, Romania
- University of Bourgogne, Le Creusot, France
- Esebel SRL, Perugia, Italy

Cefndir y Cynllun

Dros y 14 mis diwethaf mae Ysgol Bro Hyddgen, ac hefyd Prifysgol Aberystwyth, wedi bod yn gweithio ar ddatblygu adnoddau ar gyfer y cynllun www.playfulcoding.eu - <http://www.playfulcoding.eu/> gyda Phrifysgolion ac Ysgolion ar draws Ewrop. Ariannwyd y cynllun gan grant Erasmus Plus. Amcan y cynllun yma ydi rhoi adnoddau a chanllawiau i athrawon er mwyn gallu mewnbyn rhaglennu mewn dull creadigol, hwylus a gyda phwrpas i fewn i wahanol bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae gallu rhaglennu yn gyfrifiadurol gyda llythrennedd digidol yn hanfodol o bwysig ym mhob rhan o addysg ein plant ac fel Ysgol gyda'r cymorth, hyfforddiant ac adnoddau gan Prifysgol Aberystwyth, rydym wedi gallu plethu hyn i fewn i addysg ein plant yn Bro Hyddgen.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cynnal gweithgareddau tebyg yn ystod y gwyliau, ac ar benwythnosau ac unwaith eto rydym yn ffodus o allu cynnig gweithgaredd fel hyn yn ystod y flwyddyn gyda chymorth athrawon, plant a hefyd myfyrwyr a staff o Brifysgol Aberystwyth yn gwirfoddoli eu hamser. Yn ystod y tymor yma rydym wedi cael diwmod trosglwyddo gyda blwyddyn 6 o ysgolion lleol, a'r campws cynradd yn dod i'r campws uwchradd ac yn rhaglennu Robotau Arduino ond hefyd yn cael cyfle trawsgwiriolaidd i greu clawr i'r robot gyda'r torwr laser. Ni fyddai cyfleoedd fel hyn yn bosib heb y gwaith ymchwil, datblygu a hyfforddiant mae'r Ysgol yn ei wneud gyda Phrifysgol Aberystwyth sy'n ein galluogi ni i gyflwyno'r cyfleoedd sydd yn arwain y sector yma i'n plant.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun yma a'r gwaith mae'r ysgol wedi ei wneud ewch i www.playfulcoding.eu



Playful Coding Easter Club

9

Ysgol Bro Hyddgen and Aberystwyth University would like to invite your child to a learning to code day at Ysgol Bro Hyddgen's secondary campus. Computing education experts from five countries will run an Easter holiday code club at Ysgol Bro Hyddgen. There will be a range of creative computing activities for kids aged 7-15, with storytelling, robots, and animation.

This free session will give young people a fun introduction to programming in a playful context, and the opportunity to attend sessions written by and led by experts from across Europe. We will finish with a "Show and Tell" from 12-1pm where the kids can show off their creations to each other and any interested parents.

You can register your interest by filling out this form: <http://goo.gl/forms/czQbdfSH0f> or go to www.brohyddgen.powys.sch.uk and click on the playful coding link.

Alternatively you can contact Ysgol Bro Hyddgen's Secondary Campus to reserve your child's place along with the following information: Contact email address, Child's name, Child's age

Thank you for your interest and we look forward to the event!

For more information on the event please feel free to contact us using the above contact information.

Hosts:

- Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth, UK
- Aberystwyth University, Aberystwyth, UK

Contributing organisations:

- Universitat de Girona, Girona, Spain
- Escola Veinat-Salt, Girona, Spain
- Constantin Ianculescu High-School, Craiova, Romania
- University of Craiova, Craiova, Romania
- University of Bourgogne, Le Creusot, France
- Esebel SRL, Perugia, Italy

Background:

For the past 14 months the school and university have been working together and developing resources for the www.playfulcoding.eu project along with other universities and school across Europe. Funding for this project was made possible with an Erasmus Plus grant.

The aim of this grant is to provide resources and support for teachers to embed coding activities into the curriculum in a meaningful way which will not only enhance the learning for the subject but the learning of coding.

Learning to code and computational thinking along with digital literacy is an essential part of every child's curriculum and we as a school with the assistance, training and support from Aberystwyth University over the years are proud to be able to embed programming into our pupil's education.

Over the past few years we have had many similar activities during the school term but also in the evenings and during school holidays. Recently we have had a Year 6 transition day using Arduino Robots to program in a programming workshop but the kids also had an opportunity to have a cross curricular experience with creating a cover for the robot using the technology departments laser cutter.

These types of experiences would not be possible without the research, development and training that the school and Aberystwyth University has done over the years and giving our pupils sector leading opportunities to enhance their learning.

For more information about this project and the work the school has done, you can visit:

www.playfulcoding.eu



Event Details

Tuesday 22 March 2016
9.30 - 1.00

Secondary Campus
Ysgol Bro Hyddgen
Machynlleth
Powys
SY20 8DR

01654704200
www.brohyddgen.powys.sch.uk

You can register your interest by filling out this form: <http://goo.gl/forms/czQbdfSH0f>

or go to www.brohyddgen.powys.sch.uk and click on the playful coding link.



10

Gwefannau ac Apps defnyddiol ar gyfer datblygu rhifedd

Question 2

Minutes 5

$84 \div 7 = 12$

Division Level 2

1,000,000
500,000
250,000
125,000
64,000
32,000
16,000
8,000
4,000
2,000
1,000
500
200
100

Who wants to be a Millionaire?

45 - 12 =
(Question by Nathaniel)

A 33 B 12
C 23 D 43

50:50
Take 0

score: 0


0.0 0.1 0.2 0.3 0.4 0.6 0.7 0.8 0.9 1.0 1.1

0.5

Backed by research

Kids playing our game improved:

- 15% in fraction estimation
- 10% in math attitudes

[Learn more](#)


Er mwyn cynnig rhagor o gymorth i ddatlygu sgiliau rhifedd ein disgyblion, rydym yn eu hannog i wneud defnydd o rifedd y tu allan i'r ysgol. Dyma gwefannau ac Apps rhifedd defnyddiol y gall disgyblion eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau rhif ynghyd â'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.

Bedtime Math

Mae'r cwestiynau ar *bedtime math* yn cael eu gofyn ar ffurf ysgrifenedig a rhaid i'r plenty ddehongli'r cwestiwn a darganfod y swm sydd angen i'w ateb. Mae'r cwestiynau hefyd wedi eu gwahaniaethu ar gyfer disgyblion gallu isel, canolig a disgyblion gallu uchel. Mae'r cwestiynau yn newid yn ddyddiol.

Brainist Math Games

Mae'r wefan *Brainist Math Games* yn wefan wych ar gyfer datblygu mathemateg pen disgyblion. Mae'n cynnwys cwestiynau llusoi, rhannu adio a thynnu. Nod y gêm yw ateb cyfres o gwestiynau mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosib.

Gwefan sydd yn cynnwys llawer o adnoddau adolygu TGAU Mathemateg gan gynnwys *Who wants to be a Millionaire*, gêm a fydd yn ennyn diddordeb plant ac yn datblygu eu sgiliau rhif.

Motion Math

App defnyddiol ar gyfer datblygu rhif sydd yn cynnwys nifer o gemau gwahanol sydd yn hwyl i blant. Mae'r App gyda ffocws ar ddatblygu ffractsiynau ac mae'n dweud bod defnyddio'r App yma yn gwella ffractsiynau plentyn 15% ac agwedd plant tuag at fathemateg o 10%. Mae'r App yma yn ddefnyddiol i blant 2016 gan fwyafrif ohonynt fynediad i wahanol ffurf o'u defnyddio e.e. ffôn symudol, i-pods ar i-pads a.y.b.




Useful websites and Apps for developing numeracy skills

To further develop the numeracy skills of our pupils, we encourage them to make use of numeracy outside school hours. These are some useful Numeracy websites and Apps that pupils can use to develop their numeracy skills along with what is going on at school.


Bedtime Math

The questions on bedtime math are asked in a written format which requires the pupil to interpret the question and work out the sum needed to answer the question. The questions are differentiated for pupils of lower, medium and high ability learners. The question also changes daily.



Brainist Math Games


The 'Brainist Math Games' is an excellent website for developing mental maths. It's includes multiplications, division, addition and subtracting questions. The objective of the game it to answer a series of questions as quickly as possible.



A website that includes a number of revision resources for GCSE Mathematics including 'Who Wants to be a Millionaire' a game that will interest children and develop their numeracy skills.


Motion Math

A useful App for developing numeracy skills as it includes a number of games that are fun for children. The App is focused on developing fractions; they claim that the use of this App improves their fractions by 15% and children's attitude towards mathematics by 10%. Apps are useful for children of 2016 as many of them have access to different ways of using Apps such as mobile phones, i-pods and i-pads etc.




Backed by research
 Kids playing our game improved:
 • 15% in fraction estimation
 • 10% in math attitudes

[Learn more](#)




12 Sut i adolygu'n effeithiol?



Eistedd fyn'n syth – mae hyn yn caniatáu i waed ac ocsigen lifo i'r ymennydd, ac mae hyn yn hwyluso'r broses o ddysgu a chofio.

Mae pobl yn cofio 90% o beth maent yn ei ddysgu i rywun arall, ac felly mae'n werth i'r plentyn ddysgu i riant beth maent wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod adolygu diwethaf.



Mapiau meddwl

Er mwyn dysgu am sut mae **Mapiau Meddwl** yn gweithio a sut i'w creu, dyma fideo all fod o ddefnydd:

<http://youtu.be/4wZ5wV5dPZc>

Dyma enghraifft sy'n dangos sut i greu map meddwl – gofynnwch i'ch plentyn ei esbonio i chi.



Sut i greu a defnyddio map meddwl?

Dyma becyn defnyddiol iawn o strategaethau adolygu a ddefnyddir gan ysgolion yn yr Alban – mae'n werth cymryd cipolwg ohono.

<https://blogs.glowscotland.org.uk/er/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf>

Pegio

Dull o gofio pethau'n hwylus a gyflwynwyd yn ystod y gweithdy oedd '**pegio**'. Yma, mae disgyblion yn cysylltu rhywbeth gyda rhywbeth arall sy'n gyfarwydd. Enghraifft o hyn yw y gellid dysgu rhestr o wledydd y byd trwy ei cysylltu gyda chelfi yn yr ystafell wely, neu gyda rhannau o'r corff.

Trefnu'r gwaith a'r adolygu

Peidio adolygu gyda ffôn symudol a Facebook ar waith – mae defnyddio ffon symudol a Facebook fel arfer yn gwastraffu 40 munud. Dylid cadw defnyddio rhain at amser egwyl – hynny yw, adolygu am 45 munud ac yna 15 munud i siarad gyda ffrindiau ar y ffôn neu'r we.

Mae dysgwyr fel arfer yn gweithio'n fwy effeithiol os ydynt yn adolygu yn y gegin neu'r ystafell fwyta. Mae angen llonydd oddi wrth frodyr a chwiorydd, ond dylai rhiant fod yn gyfleus i gynnal y disgybl e.e. gofyn cwestiynau am y gwaith, profi i sicrhau ei fod yn dysgu'r gwaith a sicrhau nad yw'r we, yr X-box neu'r PSP a'r ffôn symudol yn cael eu defnyddio pan na ddylai hynny ddigwydd. Mae llawer o ddisgyblion **eisiau i'w rhieni eu helpu i greu a rheoli amserlen adolygu.**

Beth am ddefnyddio llyfrgell y dref ar gyfer adolygu ac mae'r ysgol ar agor am gyfnodau helaeth o'r gwyliau a than tua 6.00 o'r gloch bob nos?


Mae llawer o ddisgyblion yn dymuno bod eu **rhieni yn eistedd gyda hwy wrth iddynt adolygu**, a'u bod yn eu profi ar yr hyn a ddysgwyd, yn syth ar ddiwedd y sesiwn adolygu, ac o fewn 2-3 diwrnod i weld os oeddynt yn dal i gofio'r wybodaeth.



Safle gwe Quizlet (<http://quizlet.com/>) sef safle gwe lle mae'n bosib creu a chwarae cwisiau adolygu.



How to revise effectively?



Mind maps:

To learn more about how 'mind maps' work, and how they may be created, this video is very informative:

<http://outu.be/4wZ5wV5dPZc>

How to create and use mind-maps?

This is a very useful information pack about revision strategies which is used by schools in Scotland – it is worth taking a look at it.

<https://blogs.glowscotland.org.uk/en/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf>



Pegging is a method of memorising things very easily. This method requires learners to connect something they wish to learn with a familiar object. An example of this is that countries of the world may be learnt by connecting them with furniture in the bedroom, or with different parts of the body.

Organising the work and revision

Sitting up straight – this enables blood and oxygen to flow to the brain, and this makes the learning and memorising process to be much easier for us.

People remember 90% of what we teach to other people, and it is therefore worthwhile to teach a parent what you have learnt during the previous revising session.


Don't revise when your mobile-phone and Facebook are switched on – trying to revise and use these means that you are wasting 40 minutes. It is much better use of time to revise for 45 minutes, and then to switch the mobile phone and Facebook on during the following break – this should be 15 minutes in length

Learners usually work more effectively if



they are revising in the kitchen or dining room. Younger brothers and sisters should leave the learner alone when he/she is revising, but a parent should be nearby give support e.g. ask questions about the work, and to make sure the internet, X-box, PSP and mobile-phone are being used when this shouldn't happen.

Several pupils note that they don't work hard enough at home, and they said the internet, computer games and mobile phones attract their attention away from the work. It is beneficial for pupils to work under supervision, and not in the bedroom or wherever else they work without a parental eye being kept on what is happening.



Some pupils note that they spend too much time with friends and that they wish their parents would keep them at home for specific revision periods. It is important to have time to relax, but balance is needed, and the time before an examination is an important time for revision.

Many pupils say they want their parents to help them create and manage a revision timetable.

Pupils who live in town could use the town library for revision, and that the school is open until about 6.00 o'clock in the evening and for the majority of the holidays.

Most of the boys and some girls said they would like if their parents would sit with them when they're revising, and the parents then test what has been learnt at the end of the session and within 2-3 days see what information has been retained. Several also said they wanted their parents to discuss with them the process of completing past-papers; this would reinforce what the pupils have learnt in school.

Quizlet website (<http://quizlet.com/>) is a website where learners can create and play revision quizzes. Pupils who have already attempted to use this website have enjoyed the work and they said it was a significant help with their revision.



14 Plant Cynradd yn trafod ar y BBC!

“Bues i ar
Radio Cymru
ddydd
Nadolig!”



Bu 8 disgybl o'r campws cynradd, sef Ffion, Gwenllian, Enlli, Mabon, Erin, Cadi, Ela a fi yn ddigon ffodus i gael cymryd rhan mewn rhaglen radio. Yn ystod mis Rhagfyr cafodd 2 ddisgybl o bob blwyddyn yn yr adran Iau gyfle i sgwrsio efo cwmni cynhyrchu 'Goriad' oedd yn creu rhaglen am y Nadolig acroeddwn i yn ddigon lwcus i fod yn un ohonynt. Cefais lot o hwyl yn sgwrsio efo Aled ac Avril am be oeddwn i'n hoffi neu gasau am y Nadolig a be oedd ystyr y Nadolig i fi. Mwynheais y profiad yn fawr iawn a dwi dal i chwerthin wrth feddwl am un o'u cwestiynau : "Pe byddai'r baban Iesu yn cael ei eni heddiw ym Machynlleth, be fyddet ti'n rhoi iddo'n arnheg?" A fy ateb i oedd "Carden efo tenner (£10) ynddo!"

Gwern Phillips

Eight pupils from the primary school were very fortunate to take part in a radio program. During December, 2 pupils from each year of the primary school had the opportunity to talk to the producing company "Goriad" about a radio program that they were producing on the theme of Christmas. I was one of the lucky pupils who has the chance to speak to Alex and Avril on what I like or hate about Christmas and what was the meaning of Christmas in my opinion. I really enjoyed the experience and I still laugh while thinking about one of the questions that was asked: "If baby Jesus was born in Machynlleth, what present would you give him?" and my answer was "a card with a tenner (£10) in it!"

Gwern Phillips

Bingo PTA

Bu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn brysur iawn yn trefnu noson bingo yn neuadd yr ysgol Nos Wener, 5ed o Chwefror. Roedd nifer fawr o wobrau ar gael, a chafwyd noson llawn hwyl i'r teulu cyfan.

The parents and teachers association have been busy arranging a bingo in the hall for Friday 5th of February. Many awards were available and plenty of fun for all the family.



Newyddion o'r Cyfnod Sylfaen

15

Brython



I like having my dinner.

Dw i'n hoffi cael cinio yn yr ysgol.

Emily



I like drawing.

Dw i'n hoffi tynnu llun.

Evie



I like Miss Rees.

Dw i'n hoffi Miss Rees.

Jayden



I like playing on the yard.

Dw i'n hoffi chwarae ar yr iard

Zara



I like playing.

Dw i'n hoffi chwarae

Y Dosbarth



Croeso Mawr i bawb!

A big welcome to everyone!

16

Ydy'ch plentyn chi'n feddylwr? Ydy'ch plentyn chi'n gwestiynwr?

Ffaith: Rydych yn meddwl mwy wrth ofyn cwestiwn nac wrth ei ateb.

Ffaith: Mae athrawon yn gofyn 80 cwestiwn yr awr ar gyfartaledd. Mae dysgwyr o oed uwchradd yn gofyn 2 gwestiwn bob awr. Pwy sy'n gweithio galetaf?

Ffaith: I gael amser i ateb cwestiwn yn dda, mae angen amser meddwl cyn dweud yr ateb.

Ffaith: Dylai amser meddwl fod yn 3 eiliad o leiaf.



Research shows mothers are the most quizzed people in the UK, and on subjects far and wide.

They are asked more questions every hour than a primary school teacher - 19 - as well as doctors and nurses, 18.


And the study discovered girls aged four are the most curious, asking an incredible 390 questions per day - averaging a question every 1 minute 56 seconds of their waking day.

The Daily Telegraph

Mae datblygu dysgwyr chwilfrydig ac annibynnol yn rhywbeth mae pob ysgol yn anelu i'w wneud. Dyma'r dinasyddion fydd yn y dyfodol yn yherus i gwestiynu a rhesymu'n effeithiol, ac felly hefyd yn datblygu sgiliau arweinyddol a datrys problemau gwych. Mae astudiaethau niferus yn dangos bod plant, lle bynnag maent yn byw, wrth fynd yn hŷn yn llai parod i gwestiynu ac yn mynd yn llai a llai chwilfrydig. Wedi dweud hynny, mae parhau i annog plant i ofyn cwestiynau yn rhywbeth i'w hybu, ac mae cyfraniad allweddol gan rieni i'w wneud ynghyd â'r ysgol.

Yn llyfr cyswllt pob plentyn ym mlynnyddoedd 7-11 mae copi o'r poster "Sgiliau Gofyn Cwestiwn". Mae'r poster hwn yn ganllaw defnyddiol i annog a chefnogi'r dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau cwestiynu. Mae'r diagram yn seiliedig ar Tacsonomi Bloom (<http://www.nmmu.ac.za/cyberhunts/bloom.htm>). Mae'r cwestiynau lefel is yn gofyn am atebion yn seiliedig ar ddwyn i gof - e.e. "Sawl...?", "Faint...?", "Beth yw...?" tra mae'r cwestiynau lefel uwch yn gofyn am atebion yn seiliedig ar gymhwyso, creadigrwydd, dadansoddi a gwerthuso - e.e. "Beth os...?", "Sut gallai...?", "Pam fyddai...?". Mae'r cwestiynau lefel uwch (agored) yn gofyn am waith meddwl a phwyso a mesur, tra mae'r cwestiynau lefel is (caeedig) yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth. Mae gwerth i'r ddau fath o gwestiwn a dylid anelu i'w defnyddio mor aml a'i gilydd, ac hefyd annog y plant i ofyn y ddau fath o gwestiwn.

Cwestiynau sydd yn gallu ennyn trafodaeth ac yn gallu datblygu'r meddwl yw cwestiynau tebyg i rai lan Gilbert a welir yn ei lyfr *The Little Book of Thunks*. Mae'n werth ymweld a'r safle gwe [Thunks](http://www.thunks.co.uk/) <http://www.thunks.co.uk/> lle mae sawl enghraifft o gwestiynau o'r fath. Gweler enghreifftiau uchod.




Mae athrawon yr ysgol eleni wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ofyn cwestiynau er mwyn datblygu dysgu'r disgyblion, ac hefyd ar sut i hyfforddi disgyblion eu hunain i ddatblygu'u sgiliau cwestiynu. Ydy'ch plentyn chi'n gallu egluro beth yw cwestiwn da?

Er mwyn datblygu mwy o ddealltwriaeth am sut mae'ch plentyn yn dysgu yn yr ysgol, isod mae yma cwestiynau y gellwch ofyn wedi iddo/iddi ddychwelyd gartref. Gall hyn osgoi y sgwrs fer mae mwyafrif helaeth o rieni'r wlad yn ei gael gyda'u plant:

Rhiant: "Beth wnest ti yn yr ysgol heddiw?"

Plentyn: "Dim llawer"

Fel rhiant, pan fydd eich plentyn yn gofyn cwestiynau, mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Yn aml, gellid datblygu annibyniaeth y plentyn trwy ei annog i geisio darganfod atebion. Hon yw oes "Google", ac yn amlwg, mae llawer o atebion i'w canfod ar y we. Ond, mae ffynonellau eraill defnyddiol a gwerthfawr o wybodaeth hefyd - gwyddoniaduron, llyfrgell, ymweld â llefydd penodol, gofyn i bobl eraill, i enwi ond rhai.



- Cwestiynau gall rhieni'u gofyn er mwyn datblygu dealltwriaeth am sut mae eu plant yn dysgu:
- Pa dri pheth wyt ti wedi'u dysgu heddiw? Sut wnest ti eu dysgu?
 - Beth oedd y peth gorau ddysgais di heddiw? Beth oedd yn dda amdano?
 - Beth yw y gwaith rwyf ti wedi'i wneud orau heddiw? Beth oedd yn dda amdano?
 - Beth oedd y gwaith mwyaf heriol wnes di heddiw? Sut wnes di oresgyn unrhyw anawsterau?
 - Beth fues ti'n ei ddarllen heddiw? Beth ddysgais di wrth ddarllen hwn?



Millions saw the apple fall, but Newton was the one who asked why.

Bernard Baruch



Is your child a thinker? Does your child ask questions?

Fact: You think more when asking a question than by answering it.
 Fact: Teachers ask 80 questions an hour on average. Learners of secondary school age ask 2 questions an hour.
 Who works hardest?
 Fact: To answer a question well, thinking time is needed before answering.
 Fact: Thinking time should be at least 3 minutes.



Research shows mothers are the most quizzed people in the UK, and on subjects far and wide.
 They are asked more questions every hour than a primary school teacher - 19 - as well as doctors and nurses, 18.
 And the study discovered girls aged four are the most curious, asking an incredible 390 questions per day - averaging a question every 1 minute 56 seconds of their waking day.


The Daily Telegraph

Every school aims to develop inquisitive and independent learners. These will be, in the future, the citizens who will be confident to question and reason effectively, and will therefore have developed excellent leadership and problem-solving skills. Many studies show that children, wherever they live, are less likely to ask questions and become less inquisitive as they grow older. After saying that, encouraging children to ask question is very important, and parents as well as the school can make a significant contribution with regards to this.

In the contact book of each pupil in years 7-11 there's a copy of the poster "Questioning Skills". This is a very useful poster to encourage and support learners to develop their questioning skills, and is based on Bloom's Taxonomy (<http://www.nmmu.ac.za/cyberhunts/bloom.htm>). The lower order questions ask for answers which are based on recall - e.g. "How many...?", "What is...?" whereas higher order thinking questions require answers based on application, creativity, analysis and evaluation e.g. "What if...?", "How could...?", "Why would...?". The higher order questions (open) ask for thinking and consideration, whereas the lower order questions (closed) ask for information to be presented. There is value in both types of questions, and we should aim to use both together as often as possible, and also encourage children to ask both types of questions.

As a parent, when your child asks questions, this is something to encourage. Often, the child's independence may be developed by encouraging him/her to seek the answers. This is the age of "Google", and obviously, many answers are to be found on the internet. However, there are also other valuable sources of knowledge - encyclopaedias, library, visit relevant places, asking people to name but a few.

Questions which may encourage discussion and develop thinking skills are questions similar to those asked by Ian Gilbert in his



book **The Little Book of Thunks**. It's worth visiting the **Thunks** website <http://www.thunks.co.uk/> where there are several examples of these types of questions. Some examples may be seen above.



This year, the teachers at the school have received training on how to ask questions to develop the pupils' learning, and also on how to train pupils themselves to develop their questioning skills. Can your child explain what is a good question?

To develop further understanding about how your child learns at school, below are questions you may wish to ask at the end of the school day. This may be a way of avoiding the short conversation many parents nationally have daily with their children:

Parent: "What did you do in school today?"
Child: "Not a lot"

Questions parents can ask to develop understanding of how your child learns:

1. What three things did you learn today? How did you learn these?
2. What was the best thing you learnt today? What was good about this?
3. What work did you do best today? What was good about this work?
4. What was the most challenging work for you today? How did you overcome any difficulties?
5. What did you read today? What did you learn by reading this?



Millions saw the apple fall, but Newton was the one who asked why.

Bernard Baruch

18

Eisteddfod yr Urdd 2016

Eisteddfod Ddawns y Sir 2016

Draw yn y Drenewydd brynhawn Mercher, 2 Mawrth, aeth criw o ddisgyblion Bro Hyddgen i gystadlu yn eisteddfod ddawns yr Urdd. Roedd hi'n ddiwrnod gwych gyda'r grŵp dawnsio stryd/disgo/hip hop BL7,8,9 - Fflach - yn cipio'r wobwr gyntaf. Myfanwy Fenwick ddaeth yn fuddugol gyda'r ddawns stryd/disgo/hip hop unigol i ddisgyblion BL7,8,9. Llonyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu a phob lwc yn y genedlaethol.

Eisteddfod Uwchradd ac Aelwydydd yr Urdd 2016

Ddydd Sadwrn, 5 Mawrth, cynhaliwyd Eisteddfod Uwchradd ac Aelwydydd yr Urdd yn Theatr y Llwyn, Llanfyllin. Cafwyd cynrychiolaeth arbennig o dda o Fro Hyddgen yn y rhagbrofion gyda nifer fawr o ddisgyblion yn cyrraedd y prif lwyfan. Cafodd 20 gwobr gyntaf eu gwobrwyo i ddisgyblion yr ysgol a phob un yn edrych ymlaen yn arw at gynrychioli'r rhanbarth yn Sir y Fflint yn ystod wythnos hanner tymor y Sulgwyn. Yn wir, cipiodd ddisgyblion yr ysgol y wobwr gyntaf ym mhob cystadleuaeth ble'r oedd cynrychiolaeth o Fro Hyddgen yn cystadlu - tipyn o gam! Roedd yr holl waith ymarfer yn ystod yr wythnosau blaenorol wedi talu'i ffordd. Mae'r ysgol yn hynod falch o'n disgyblion talentog ac yn ddiolchgar iawn i'r athrawon sy'n gweithio'n ddiwyd iawn yn eu hyfforddi a'u paratoi. Dymuniadau gorau i bawb yn y genedlaethol ddiwedd Mai.

Cyflwyno Alaw Werin BL7,8,9

1af) Malen Aeron, Ysgol Bro Hyddgen
2il) Glain Melangell Lewis, Ysgol Bro Hyddgen
3ydd) Tegan Llio Roberts, Ysgol Bro Hyddgen

Unawd Cerdd Dant BL 7,8,9

1af) Malen Aeron, Ysgol Bro Hyddgen
2il) Branwen Siôn Roberts, Ysgol Bro Hyddgen
3ydd) Tegan Roberts, Ysgol Bro Hyddgen

Parti Cerdd Dant BL 7,8,9

1af) Ysgol Bro Hyddgen

Côr Cerdd Dant BL10 a dan 19 oed

1af) Ysgol Bro Hyddgen

Llefaru Unigol BL7,8,9

1af) Mari Fychan, Ysgol Bro Hyddgen
2il) Branwen Siôn Roberts, Ysgol Bro Hyddgen

Ymgom BL 7,8,9

1af) Ianto Duggan a Mari Elin, Ysgol Bro Hyddgen

Deuawd BL 7,8,9

1af) Tegan Llio a Glain Melangell, Ysgol Bro Hyddgen
2il) Branwen a Non, Ysgol Bro Hyddgen

